# A phwy ydoedd y Mrs Robinson yna oedd gan Thomas, brawd Howel Harris?

## ELWYN L. JONES a'r dirgelwch mawr

MAE'N debyg mai ystrydeb erbyn hyn yw dweud bod hanes yn llawn posau (h.y. 'pysls' – rhaid bathu gair Cymraeg am hwn), a'r posau mewn perthynas â dynion a gwragedd unigol yn llai pwysig na'r rhai'n ymwneud â chenhedloedd neu wladwriaethau.

Ond y rhai personol gan amlaf yw'r rhai mwyaf diddorol, ac ambell un yn ddigon gogleisiol i'w gynnwys mewn *"Woman's Own"* Cymraeg. Un o'r math hynny yw'r dirgelwch ynghylch Mrs Robinson yr honnir iddi fod yn wraig i Thomas Harris.

"Ond pwy oedd Thomas Harris i ddechrau?" medd rhai ohonoch. Brawd ydoedd i'r Howel Harris enwog, a'i berthynas â'r diwygiwyr mawr yw'r ffactor sy'n gwneud ei fywyd personol yn ddigon diddorol i fod yn un o bosau gogleisiol hanes. Ei frawd arall oedd Joseph, gŵr na chafodd hyd yn hyn sylw y mae siŵr o fod yn ei haeddu.

Triawd hynod oedd y brodyr yma o Drefeca Fach, cael eu magu mewn dinodedd ac amgylchiadau anfanteisiol, heb fawr o addysg ac yn llwyddo, bob un o'r tri, i godi i amlygrwydd digonol i gael eu cynnwys yn ein Bywgraffiadur presennol ninnau. Oes yna sôn am unrhyw driawd cyffelyb o Gymry yn cyrraedd y fath amlygrwydd? (ar wahân wrth gwrs i'r brodyr o Fôn.)

Cyrhaeddodd Joseph safle uchel fel 'Assay Master' ym Mathdy Brenhinol Llundain, a thrigo'n gyfforddus mewn dau dŷ, un swyddogol ac un personol. Howel y brawd ieuengaf, fel y gwyddom, yn tanio cenedl gyfan a gadael ei farc arni am byth.

A Thomas yntau – fe wnaeth hwnnw ffortiwn fawr fel teiliwr yn Llundain trwy werthu dillad i gyfoethogion y ddinas a'r fyddin Brydeinig. Dychwelodd ymhen amser i'w hen gynefin, Trefeca, i fyw ar ei arian a dod yn Siryf y sir.

* * *

DYNA ddigon o ragymadrodd ynghylch pwy oedd pwy; awn at y pysl. Thomas Harris, York Buildings George St., The Strand, London, oedd ei gyfeiriad, sef ei gartref ef, ei wraig a'i blant – ac ar y wyneb does dim byd arbennig yn hynny. Ond fe ddywed rhai o arbenigwyr mwyaf trylwyr y maes hwn wrthym mai plant gordderch oeddynt! Nid oedd Thomas wedi priodi! Enwau'r plant oedd William, Thomas ac Elizabeth 'Robinson'. NID OEDD 'Harris' yn eu henwau o gwbl.

Mae'r chwilotwyr a nodais yn bendant mai plant gordderch oeddynt ac mai Thomas oedd yn gyfrifol, a chreu'r argraff gyffredinol felly mai tipyn o 'foi' oedd Thomas, yn bwrw'i oriau'n gwina a mercheta yn y ddinas fawr gyffrous. Tybiaf fod hynny'n ddigon posib, yn wir yn debygol.

Roedd y diweddar M.H. Jones yn sicr "Nad oedd unrhyw dystiolaeth i Thomas briodi erioed". Ond yn ddiweddarach daeth y Dr. Gomer M. Roberts o hyd i lythyron diddorol gan Joseph a Howel sy'n sôn am wraig Thomas a dyfynna'n effeithiol ohonynt. Ceir nifer o gyfeiriadau yng ngohebiaeth y brodyr sy'n sôn am *Thomas and his family* ac am *sister* a *sister in law*, a chawn Thomas ei hun yn sgrifennu at ei fam gan ddweud bod *wife* yn uno ag ef i ddymuno'n dda i'r teulu gartref yn Nhrefeca.

Beth yn y byd a wnawn â'r cymysgwch? A oedd ei ddau frawd felly mewn anwybodaeth o'r berthynas rhwng Thomas a Mrs. Robinson a'r plant, neu ynteu, a oeddynt, wrth ysgrifennu at eu rhieni, yn celu'r gwir er mwyn arbed teimladau?

Os oedd Mrs Robinson mewn gwirionedd yn wraig i Thomas pam nad oedd 'Harris' yn enw derbyniol arni hi a'i phlant? A ble roedd y Mrs Robinson hon pan ddychwelodd Thomas yn ŵr cyfoethog i Drefeca i fod yn sgweier yr ardal ac yn Siryf? Hwyrach iddi farw wrth gwrs.

At hynny ni welais i gyfeiriad yn unman iddi erioed ymweld â Threfeca, cartre'i gŵr. Pam? Ef a'i Elizabeth yn unig a ddychwelodd yn 1768 i fyw i'r hen ardal. Roedd Tom ar ôl yn Llundain, yn brentis-dwrnai un ar hugain oed, a William wedi hen fynd i'r fyddin.

* * *

BU FARW Thomas yn 1782 a'i aeres, sylwer, oedd Anna Maria, ei nith, merch ei frawd Joseph. Iddi hi y gwaddolodd ei gartref mawr, Tregwnter, a'r rhan helaethaf o'i eiddo. Diddorol yn yr un cyswllt yw darllen iddo adael £500 *to my friend* William Robinson, *now or late a Lieut, of Marines in the East India Company's Service at Bombay.'*

Cawn hefyd *unto my friend Elizabeth Robinson £200.* Deryn brith iawn oedd y mab arall Tom; absennol llwyr yw ef o'r ewyllys.

*Friends* oedd y plant yma yn ôl yr ewyllys a hynny felly'n tueddu i gryfhau'r honiad mai cyd-fyw yr oedd Thomas a'i Mrs Robinson ddirgel. Ond pam mae'n rhaid inni gasglu taw ffrwythau ei ordderch oeddynt? Onid ail wraig iddo oedd Mrs Robisnon? Onid yw'n bosibl mai plant ei gŵr cyntaf oeddynt ac i Thomas, am ryw reswm dirgel, gydfyw â'r fam a gofalu am y plant, ie gofalu amdanynt hyd ei farw fel *friends*.

* * *

MAE'N hysbys mai digon llac oedd llawer o drefniadaeth briodasol Llundain bryd hynny. Roedd cannoedd o 'Fleet Marriages' yn digwydd, priodasau hwylus, hwyliog ac am resymau reit lliwgar yn aml. Oni allai Thomas fod wedi mentro ar briodas felly a medru sicrhau ei frodyr ei fod yn wir wedi priodi.

Hynny wedyn yn gwneud honiad y Dr. M.H. Jones yn hollol gywir, sef nad oedd 'unrhyw **dystiolaeth** fod Thomas erioed wedi priodi? Wrth gwrs, nid oedd cofnodion ar gael am lawer o'r 'Fleet Marriages'.

Dyna'r pôs felly, y **pysl**, ac mae digon o le i ddyfalu. Pwy oedd Mrs Robinson a beth oedd ei pherthynas â Thomas Harris? Beth oedd statws gwir 'plant Thomas', ei *friends* fel y galwai hwy? Pam yr enw *Robinson* arnynt yn hytrach na Harris? A oeddynt mewn gwirionedd yn gynnyrch gordderch? A feiwyd Thomas druan ar gam ar hyd y blynyddoedd? Mae modd dyfeisio sawl allwedd i'r dryswch.

Clywais rai wythnosau nôl beth diddorol iawn gan ffrind. Roedd ei thad meddai yn cofio achosion yn ei ardal ef lle roedd y plant yn cael eu hadnabod wrth gyfenw'r fam yn hytrach na'r tad, eu henwi'n swyddogol yn y ffordd yna.

Tybed a oes rhywrai ymhlith darllenwyr **Y Casglwr** yn cofio neu'n gwybod am beth felly? Byddai hynny'n esboniad derbyniol ar sefyllfa Thomas ac yn ei arbed rhag ei goll farnu am byth! Ond yn y pen draw mae'n debyg taw plethu dychymyg o gwmpas y sefyllfa fydd orau, a mwyaf diddorol.

---

# Mae rhai yn casglu y pethau rhyfeddaf

ERS blwyddyn bellach dechreuais bori mewn cylchgronau am benillion a ffurfiau rhyfedd iddynt. Dyma enghreifftiau:

*(Dechreuer darllen yn y gwaelod)*

gron
daear
Yn frenin
fu gaethwas tlawd
A'r Cymro gynt
I blygu glin i hon,
A chyn bo hir daw ieithoedd byd
I nythu yma'n glyd;
Ahedeg mae cenedloedd dae'r
A'i gangau led y byd,
Mae heddyw'n bren, cadarn-gryf mawr
Godasant yn eu côl.
A'r hen Gymraeg, fu gynt dan draed,
I godi'r wlad yn ôl,
Ond deffro wnaeth ei dewrion feib
iaith
o bob
y lleiaf
gwan
eiddil
mwstard
Yn hedyn
Am lawer canrif faith
Fe fu Cymraeg, iaith Cymru fad,
**Yr Iaith Gymraeg**

*Capel Dewi*

R. Gwmryn Jones

Daw'r tamaid rhyfeddol uchod o **Cymru'r Plant** Ebrill 1894.

A dyma benillion eraill. Dengys y cyntaf ein bod ym mlwyddyn dathlu cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg, ond coffáu yn 1938 a wneir; y mis llawn hoen yw'r un a bortreadir yn yr un flwyddyn sef Ebrill:

Y Beibl glân a roes ein Tad o'r nef:
Bendith ddwyfol yw a ddaeth i ddyn;
Efengyl gras gyhoedda i bob un;
Iesu Grist yn Geidwad i'r holl fyd;
Bywyd bythol trwy ei haeddiant drud;
Llawenydd gwir i bawb a'i derbyn Ef.

G.W.G.

**Trysorfa'r Plant** Medi 1938 t. 262;

**Ebrill**

Esgyn hedydd bach i'r dydd;
Blodau hulia'r lawnt a'r gwŷdd:
Rhed yr ŵyn ar yrfa lon;
Ieuanc ydyw'r byd o'r bron;
Lelog, lili ddaeth ynghyd;
Lifrai'r gwanwyn wisga'r byd.

G.W.G

**Trysorfa'r Plant** 1938 t.102;